

Dull PESS o Addysgu Dawns - Cyfnod Allweddol 2

Gwers 4

Canlyniadau Gwers 4

- Cynnig eu syniadau eu hunain ynghylch y gweithrediadau y dylid eu cynnwys mewn cyfres hwy o weithrediadau cysylltiedig trwy ymateb yn ddychmygus i symbyliadau
- Ymarfer er mwyn gwella rhwyddineb a llif gweithrediadau
- Cynnal gweithgaredd dros gyfnod hwy

Adolygu

Mae'r disgyblion yn cynhesu trwy ymarfer y cymalau dawns y maent wedi'u llunio hyd yn hyn, ac maent yn ceisio cynnwys rhai gwelliannau a nodwyd yn ystod y wers ddiwethaf.

Trac 3 ar CD sain Dull AGChY o Addysgu Dawns CA2.

Archwilio

Cerfluniau cerddorol. Mewn parau, mae'r disgyblion yn archwilio'r cysyniad o gerfluniau cerddorol. Eglurwch i'r disgyblion na fyddwch yn diffodd y gerddoriaeth, felly bydd rhaid iddynt benderfynu drostynt eu hunain pryd y byddant yn aros yn llonydd. Gofynnwch i'r disgyblion archwilio dawns a llonyddwch mewn ymateb i'r symbyliad, sef cerfluniau cerddorol. Anogwch y disgyblion i ddefnyddio amrywiaeth o lefelau, cyfeiriadau a siapiau dychmygus. Mae'r disgyblion yn archwilio'r arfer o symud ag unfurfiaeth: dawnsio ar yr un pryd, gwneud yr un peth ar yr un pryd, sefyll yn llonydd ar yr un pryd gan ddal yr un siŵp.

Creu

Gweithiwch mewn parau i lunio cymal dawns ar y pwnc 'cerfluniau cerddorol' y gellir ei ychwanegu at ddiwedd y ddawns yr ydych wedi'i chynllunio hyd yn hyn. Mae angen cael unfurfiaeth wrth berfformio'r cymal hwn gan ddefnyddio amrywiaeth o weithrediadau dawns, cyfeiriadau, lefelau, llwybrau a siapiau. Ewch ati i ymarfer i sicrhau eich bod yn cysylltu pob adran o'ch dawns yn esmwyth ac yn rhwydd.

Ymyrryd

Gofynnwch i'r disgyblion pa fath o syniadau y maent yn eu cynnwys yn eu dawns. Tynnwch sylw at barau sydd wedi sicrhau bod eu gweithrediadau a'r adrannau yn eu dawns yn llifo'n dda. Gofynnwch i'r disgyblion ddisgrifio sut y byddai dawns sy'n llifo'n dda yn edrych. Gofynnwch i'r disgyblion beth y mae angen iddynt ei wneud i sicrhau eu bod yn gallu cynnal ansawdd eu perfformiad wrth i'r ddawns dyfu'n hwy. Beth sy'n digwydd i'w cyrff wrth iddynt ddawnsio am gyfnodau hwy? Sut y gallai hyn fod o fudd iddynt yn y dyfodol? Beth yw'r cysylltiad rhwng gweithgarwch corfforol ac iechyd?

Perfformio

Perfformiwch y ddawns yr ydych wedi ei llunio hyd yn hyn ♦ 'Mynd i'r parti', yna 'Pasio'r parsel', yna 'Cerfluniau cerddorol'. Mae pawb yn perfformio ar yr un pryd.

Gwerthuso

Cwestiynau a gaiff eu harwain gan yr athro. Caniatewch i’r disgyblion gyfeirio at y wal eiriau neu gardiau fflach sy’n cynnwys geiriau allweddol. Pa weithrediadau yr ydych wedi’u cynnwys yn eich cymal dawns ar y pwnc ‘Cerfluniau cerddorol’? Disgrifiwch y cerflun sydd orau gennych - pam eich bod yn hoffi’r cerflun hwnnw? Pa strategaethau yr ydych chi a’ch partner wedi’u defnyddio i sicrhau eich bod yn symud ag unffurfiaeth? Pa ran o’ch dawns yr ydych yn meddwl sy’n arddangos y llif gorau? Disgrifiwch ran o’r ddawns yr ydych yn credu y gellid gwella ei llif/rhwyddineb. Beth fyddwch chi’n ei wneud y tro nesaf i wella hyn? A lwyddoch i gynnal ansawdd eich perfformiad trwy gydol eich dawns hwy? Os na lwyddoch i wneud hynny, sut y gallwch wella hyn y tro nesaf?

